Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru

Animal & Plant Health Agency

# Hysbysiad o Gofrestru Gweithredwyr, Sefydliadau neu Safleoedd o dan Ofynion Erthygl 23 o Reoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (CE) a Gymathwyd Rhif 1069/2009

## Canllawiau ar gwblhau'r ffurflen hon

- rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon i gofrestru â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) os ydych yn trin neu'n defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid fel rhan o'ch gweithrediadau
- mae'r trosolwg ar gyfer y diwydiant sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cynnwys manylion llawn ynghylch pwy ddylai gofrestru ar GOV.UK
- nid oes angen i adran cludo nwyddau unrhyw weithrediad sgil-gynhyrchion anifeiliaid cymeradwy neu gofrestredig gofrestru ar wahân. Dim ond i gludwyr annibynnol y mae'r gofyniad i gofrestru yn berthnasol. Dim ond un ffurflen gofrestru sydd ei hangen ar gyfer unrhyw gwmni cludo unigol, ni waeth sawl depo sydd ganddo. Fodd bynnag, dylai'r cwmni ddarparu cyfeiriad pob depo sydd ganddo yn y DU i APHA wrth gofrestru
- dylid hysbysu APHA yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau i berchenogaeth, cyfeiriad neu weithrediad safle cofrestredig gan ddefnyddio'r ffurflen hon (AB117)
- os hoffech gael cyngor ar gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â'r tîm sgil-gynhyrchion anifeiliaid yng Nghanolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid APHA: CSCOneHealthABP@apha.gov.uk

**Efallai** y bydd angen i weithredwyr gofrestru hyd yn oed:

- os yw eich sefydliad yn cynnal gweithgareddau sy'n cynnwys sgil-gynhyrchion anifeiliaid rydych wedi cael eich cymeradwyo neu'ch cofrestru eisoes ar eu cyfer o dan Reoliad (CE) Rhif 852/2004 neu Reoliad (CE) Rhif 853/2004 a gymathwyd (cysylltwch â'r Tîm Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid i gael rhagor o wybodaeth)

**Nid** yw'n ofynnol i'r gweithrediadau canlynol gofrestru:

- gweithgareddau sy'n cynnwys cynhyrchu sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar y safle yn unig, sy'n cael eu cynnal ar fferm neu safleoedd eraill lle y caiff anifeiliaid eu cadw, lle y cânt eu bridio neu lle y gofelir amdanynt
- busnesau manwerthu sy'n cynhyrchu cyfanswm pwysau o lai nag 20kg yr wythnos o wastraff cig, pysgod neu bysgod cregyn amrwd neu wedi'i goginio'n rhannol y gellir ei anfon i safle tirlenwi (rhaid cadw cofnodion o'r math o sgil-gynhyrchion anifeiliaid a anfonir i safle tirlenwi bob wythnos, a'u pwysau yn fras)
- sefydliadau neu safleoedd y mae angen cymeradwyaeth arnynt o dan Erthygl 24 o Reoliad (CE) a gymathwyd Rhif 1069/2009 neu unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â'r sefydliad hwnnw e.e. cludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Mae'n rhaid i'r gweithrediadau hyn, gan gynnwys rendro, llosgi, safleoedd bwyd anifeiliaid anwes, gweithgynhyrchwyr gwrteithiau organig a gwellhawyr pridd, safleoedd compost a bio-nwy, safleoedd sy'n trin a storio sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n deillio o sgil-gynhyrchion anifeiliaid, wneud cais am gymeradwyaeth. Mae'r ffurflenni cais ar gael ar GOV.UK https://www.gov.uk/government/collections/guidance-for-the-animal-by-product-industry#forms

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ai gwneud cais newydd i gofrestru neu ddiweddaru cofrestriad sydd eisoes yn bodoli ydych chi? | Newydd | ☐ | Diweddaru | ☐ |
| Os mai diweddaru cofrestriad sydd eisoes yn bodoli ydych chi, rhowch eich rhif cofrestru APHA | | | | |
| 1. Enw'r busnes | | | | |
| 2. Enw'r perchennog/perchnogion | | | | |
| 3. Nodwch pa un o'r canlynol ydych chi (ticiwch fel y bo'n briodol) | Unigolyn/Unig Fasnachwr | ☐ | Busnes/Partneriaeth | ☐ |
| 4. Rhif y cwmni (fel y mae'n ymddangos ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau) os yw'n gymwys | | | | |
| 5. Enw llawn a theitl y cyswllt:*Dr/Mr/Mrs/Miss/Ms | | | | |

6. Swydd/Rôl y cyswllt

7. Cyfeiriad Gohebu a manylion cyswllt:

Cod post

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif Ffôn Cyswllt (gan gynnwys cod STD) | | Rhif Ffôn Symudol. | |
| Rhif daliad (CPH) (os yw'n gymwys) | | Cyfeiriad e-bost | |

8. Cyfeiriad y safle lle y cynhelir y gweithgareddau sy'n cynnwys sgil-gynhyrchion anifeiliaid (os yw'n wahanol i'r uchod)

Cod post

9. Lleoliad: Cyfeirnod Map AO

10. Ai cyfeiriad y safle uchod yw'r unig un y mae angen cofrestriad sgil-gynhyrchion anifeiliaid arno? Ie ☐ Nage ☐

- **Os 'nage',** rhowch fanylion y safleoedd hynny ym Mhrydain Fawr y mae angen cofrestriad sgil-gynhyrchion anifeiliaid arnynt

11. **Canllawiau ar Ffioedd Ar-lein**

Nid oes unrhyw ffioedd gwneud cais, ond efallai y bydd angen talu ffioedd arolygu parhaus. Gweler y ddeddfwriaeth berthnasol isod:

Ffioedd am wasanaethau sgil-gynhyrchion anifeiliaid a ddarperir gan APHA - GOV.UK (www.gov.uk)

Enw eich busnes at ddibenion codi tâl

Noder:

- rhaid i'r manylion ym maes enw'r busnes uchod gael eu nodi **yn union** fel y byddant yn ymddangos ar anfonebau
- rhaid sicrhau mai enw'r cwsmer yw'r **enw masnachu cyfreithiol llawn (peidiwch â defnyddio acronymau)**

A ydych yn cynrychioli adran o'r llywodraeth neu sefydliad cyhoeddus? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Cyfeiriad Bilio ar gyfer y busnes:

Cod post

Gwlad

Rhif cofrestru TAW

**Manylion cyswllt ar gyfer anfonebau/bilio**

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad e-bost cyswllt (ar gyfer pob anfoneb yn ymwneud â'r safle uchod) | |
| Enw llawn a theitl yr unigolyn cyswllt: *Dr/Mr/Mrs/Miss/Ms | |
| Rhif ffôn | |

12. Rhowch ddisgrifiad manwl o sut rydych am ddefnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n deillio o sgil-gynhyrchion anifeiliaid ac o ble y byddwch yn eu caffael:

*Parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen*

13. Nodwch (ticiwch) bob categori a rhowch ddisgrifiad cryno o'r sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu'r cynhyrchion sy'n deillio o sgil-gynhyrchion anifeiliaid a ddefnyddir gennych: (i gael gwybodaeth am gategorïau o sgil-gynhyrchion anifeiliaid gweler y canllawiau ar GOV.UK: https://www.gov.uk/government/publications/controls-on-animal-by-products)

Categori 1 ☐ Disgrifiad:

Categori 2 ☐ Disgrifiad:

Categori 3 ☐ Disgrifiad:

14. A ydych yn trin unrhyw rai o'r cynhyrchion canlynol, at ddibenion heblaw bwydo anifeiliaid?

| **Cynhyrchion** | **Talfyriad** | **Ticiwch** |
|---|---|---|
| Gwaed neu gynhyrchion gwaed o anifeiliaid heblaw ceffylau, at ddefnydd meddygol | BLPT | ☐ |
| Gwaed a chynhyrchion gwaed o geffylau | SERE | ☐ |
| Crwyn – sy'n dod o safleoedd ceidwaid stoc eu hunain yn unig, lle y caiff crwyn eu halltu ar eu safleoedd cyn cael eu hanfon i'w trin oddi ar y safle (Mae angen i weithgareddau sy'n cynnwys crwyn o safleoedd eraill gael cymeradwyaeth fel safle trin; ar gyfer cludo i danerdy cofrestredig, mae angen cofrestru fel cludwr) | HISK | ☐ |
| Gweithgareddau trin lledr – a gyflawnir ar grwyn sy'n dod o stoc ceidwad ei hun yn unig ac ar ei safle ei hun | TAN | ☐ |
| Troffïau hela a thacsidermi (masnachol yn unig) | GATRP | ☐ |
| Gwlân, blew, gwrych mochyn, plu a manblu | WHBF | ☐ |
| Sgil-gynhyrchion gwenwyna | API | ☐ |
| Esgyrn, cynhyrchion esgyrn, cyrn, cynhyrchion cyrn, carnau a chynhyrchion carnau | BHHP | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| Llaeth, cynhyrchion llaeth, cynhyrchion sy'n deillio o laeth, llaeth tor, cynhyrchion sy'n deillio o laeth tor | MIMC | ☐ |
| Gweddillion treulio yn sgil cynhyrchu bio-nwy | DIGR | ☐ |

Unrhyw gynhyrchion eraill a ddefnyddir y tu allan i'r gadwyn fwyd (heb gynnwys yr uchod), nodwch:

| |
|---|
| |

15. A ydych yn defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n deillio o sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar gyfer unrhyw un o'r dibenion penodol canlynol?

| **Gweithgaredd** | **Talfyriad** | **Ticiwch** |
|---|---|---|
| Diagnostig, addysgol ac ymchwil | UDER | ☐ |
| Bwydo anifeiliaid sŵ neu syrcas (Mae angen cael cymeradwyaeth sgil-gynhyrchion anifeiliaid i fwydo anifeiliaid sŵ neu syrcas â sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 1. Cysylltwch â'r Tîm Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid i gael y ffurflen gais berthnasol) | UZOO | ☐ |
| Bwydo adar corffysol | UNEC | ☐ |
| Bwydo anifeiliaid gwyllt eraill. Mae hyn ond yn gymwys i fannau bwydo sy'n bwydo adar ysglyfaethus gwyllt â deunydd Categori 3 yng Nghymru a Lloegr | UWILD | ☐ |
| Bwydo cŵn mewn llety cŵn cydnabyddedig neu gofrestredig, cnud o helgwn, cŵn a chathod mewn lloches (bydd angen prawf o weithgarwch masnachol) | UDOG | ☐ |
| **Cymru yn unig** – Bwydo cŵn a chathod anwes, gartref, â deunydd a gafwyd yn uniongyrchol o ladd-dai (gellir ond eu bwydo â sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 3, nid yw hyn yn cynnwys deunydd megis treip gwyrdd heb ei olchi, sydd yng Nghategori 2). Yn **Lloegr** nid oes angen i berchnogion anifeiliaid anwes gofrestru os ydynt yn bwydo eu hanifeiliaid anwes eu hunain â deunydd Categori 3. Yn **yr Alban** ni ellir bwydo anifeiliaid anwes â sgil-gynhyrchion anifeiliaid. | UPETW | ☐ |
| Cynhwysion a gyflenwir ar gyfer gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes neu atchwanegiadau anifeiliaid anwes | UPETI | ☐ |
| Gweithgynhyrchu atchwanegiadau anifeiliaid anwes (Efallai y bydd angen cymeradwyaeth ar gyfer atchwanegiadau anifeiliaid anwes penodol – cysylltwch â'r Tîm Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid i gael rhagor o fanylion) | UPETM | ☐ |
| Pryfed (gan gynnwys cynrhon a mwydod) ar gyfer abwyd pysgota | UINSE | ☐ |
| Abwyd pysgota (heb gynnwys pryfed) | BAIT | ☐ |
| Bwydo ymlusgiaid ac adar ysglyfaethus nad ydynt yn wyllt | URBP | ☐ |

16. A ydych yn cynnal unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol?

| **Gweithgaredd** | **Talfyriad** | **Ticiwch** |
|---|---|---|
| A ydych yn ganolfan gasglu sy'n casglu stoc trig (<48 mis oed) i fwydo helgwn ac anifeiliaid eraill sy'n bwyta cig? | COLC | ☐ |
| A ydych yn gwneud gwrteithiau organig neu wellhawyr pridd drwy gymysgu cynhyrchion gorffenedig? (mae angen cymeradwyaeth ar weithgynhyrchwyr sy'n defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid heb eu trin) | UFERT | ☐ |

17. A ydych yn gwneud neu'n gwerthu unrhyw un o'r canlynol sy'n cynnwys sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n deillio o sgil-gynhyrchion anifeiliaid? Dim ond os nad yw'r cynhyrchion wedi cyrraedd eu diweddbwynt y mae cofrestru yn ofynnol.

| **Cynhyrchion** | **Talfyriad** | **Ticiwch** |
|---|---|---|
| Cynhyrchion cosmetig | COSM | ☐ |
| Cynhyrchion fferyllol | PHAR | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **Os ydych** ticiwch lle y bo'n briodol: | | |
| • Dyfeisiau meddygol mewnblanadwy gweithredol | | ☐ |
| • Dyfeisiau meddygol | | ☐ |
| • Dyfeisiau meddygol diagnostig in-vitro | | ☐ |
| • Cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol | | ☐ |
| • Cynhyrchion meddyginiaethol | | ☐ |
| Cynhyrchion canolraddol (sy'n gysylltiedig â'r uchod) | INTP | ☐ |

18. A ydych yn gweithredu fel (ticiwch fel y bo'n briodol):

| Gweithgaredd | Talfyriad | Ticiwch |
|---|---|---|
| Cludydd annibynnol (unigolyn neu fusnes sy'n cludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n deillio o sgil-gynhyrchion anifeiliaid ac nad yw'n rhan o unrhyw fusnes sgil-gynhyrchion anifeiliaid cymeradwy arall) | TRANS | ☐ |
| **Os ydych,** ticiwch bob un sy'n gymwys: | | |
| • Tancer sgil-gynhyrchion anifeiliaid (e.e. tancer gwêr) | | ☐ |
| • Cludydd sy'n cludo swmplwythi o flawd cig ac esgyrn Categori 1, protein anifeiliaid wedi'i brosesu Categori 3 neu wrteithiau organig/gwellhawyr pridd | | ☐ |
| • Cludydd sy'n cludo mwy nag un categori o sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar yr un pryd, yn yr un swmpgerbyd (ôl-gerbydau wedi'u rhannu) | | ☐ |
| • Cyfleuster storio a weithredir gan yr awdurdod lleol, safle trosglwyddo gwastraff ar gyfer gwastraff arlwyo neu anifeiliaid a laddwyd ar ffyrdd | | ☐ |
| • Casglwr stoc trig | COLL | ☐ |
| Masnachwr neu frocer sgil-gynhyrchion anifeiliaid heb eu trin, cynhyrchion sy'n deillio o sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu cynhyrchion gorffenedig sgil-gynhyrchion anifeiliaid, nad yw'n cael yn storio nac yn trin y deunydd mewn gwirionedd. | TRAD | ☐ |
| Mynwent anifeiliaid anwes | PCET | ☐ |
| Safle tirlenwi | LAND | ☐ |
| Safle tirlenwi dwfn ar gyfer Gwastraff Arlwyo Rhyngwladol | ICWLF | ☐ |
| Trin neu gludo gwastraff arlwyo rhyngwladol o bob gwlad y tu allan i Brydain Fawr, gan gynnwys yr UE, drwy borthladdoedd, meysydd awyr a therfynellau trafnidiaeth rhyngwladol eraill | ICWP | ☐ |
| Llosgydd wedi'i awdurdodi o dan y Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff neu'r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol | INCEA | ☐ |

Os nad oes dim un o'r uchod yn gymwys, cadarnhewch yr hyn rydych yn ei wneud isod (ARALL):

| |
|---|
| |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 19. Beth yw pwysau wythnosol y sgil-gynhyrchion anifeiliaid a gaiff eu trin ar gyfartaledd? | Llai na thunnell: | ☐ | 1-10 tunnell: | ☐ | Mwy na 10 tunnell: | ☐ |

20. A oes unrhyw dda byw o ffermydd ar y safle lle y caiff deunydd crai neu gynnyrch gorffenedig eu trin? Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, rhowch fanylion:

21. A fydd deunydd crai neu gynnyrch gorffenedig yn cael eu cludo i mewn i anhedd-dy domestig neu ar dir anhedd-dy domestig? Bydd ☐ Na fydd ☐

Os bydd, rhowch fanylion:

22. Rhowch ddisgrifiad cryno o'r ffordd rydych yn bwriadu gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid nas defnyddiwyd:

23. A ydych yn bwriadu **allforio** sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n deillio o sgil-gynhyrchion anifeiliaid i'r UE? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych, dewiswch pa weithgaredd(au) yr hoffech ei restru/eu rhestru ar TRACES NT at ddibenion masnach (gweler y Manylebau Technegol [Non-EU countries authorised establishments (europa.eu)](europa.eu) am arweiniad):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Casglu neu drin sgil-gynhyrchion anifeiliaid heb eu trin (ABP-COL) | ☐ | Safleoedd prosesu (ABP-FSB) | ☐ | Safleoedd bwyd anifeiliaid anwes (ABP-PET) | ☐ |
| Safleoedd troffïau hela (ABP-GT) | ☐ | Cynhyrchion rhyngwladol (ABP-IP) | ☐ | Gwrteithiau a gwellhawyr pridd (ABP-SOIL) | ☐ |
| Storfeydd ar gyfer cynhyrchion sy'n deillio o sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABP-DP) | ☐ | Gwaed a chynhyrchion gwaed heblaw equidae (ABP-BBL) | ☐ | Safleoedd cynnyrch llaeth (ABP-MP) | ☐ |

24. A oes angen y cofrestriad hwn er mwyn hwyluso **mewnforio** sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n deillio o sgil-gynhyrchion anifeiliaid i Brydain Fawr? Oes ☐ Nac oes ☐

**Eich Cyfrifoldeb**

Eich cyfrifoldeb chi yw cydymffurfio â phob rhan o'r Rheoliadau sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n berthnasol i'ch busnes. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth gefndirol angenrheidiol, a dolenni i dudalennau sy'n berthnasol i'ch busnes yma: https://www.gov.uk/government/collections/guidance-for-the-animal-by-product-industry.

Gallaf gadarnhau bod y wybodaeth a roddir yn gywir ac y byddaf yn casglu, adnabod, cludo a gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid heb oedi gormodol dan amodau sy'n atal risgiau rhag codi i iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | | | |
| Enw mewn PRIFLYTHRENNAU | | Dyddiad | |

Dylid anfon ffurflenni wedi'u cwblhau a'u llofnodi drwy e-bost i:

CSCOneHealthABP@apha.gov.uk

*Dylid eich hysbysu nad yw negeseuon e-bost confensiynol wedi'u hamgryptio ac felly na ddylid anfon gwybodaeth sensitif.*

Fel arall, gellir cyflwyno ffurflenni wedi'u llofnodi drwy'r post i:

ABP Team
APHA Customer Service Centre
County Hall
Spetchley Road
Worcester
WR5 2NP

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

1. **Caiff y ffurflen hon ei dychwelyd atoch wedi'i stampio gan y swyddfa ddyroddi fel prawf o'ch cofrestriad gan APHA.**
2. Bydd y swyddfa ddyroddi yn rhoi llinell drwy'r blychau defnydd swyddogol sy'n ymwneud â'r gweithgareddau nad ydynt yn gymwys i'ch safle.
3. Caiff gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch gweithrediad ei chynnwys neu y gall gael ei chynnwys yn y rhestr gyhoeddedig o safleoedd Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid Cofrestredig a bydd ar gael i'ch Awdurdod Lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

**At Ddefnydd Swyddogol**

Cyfeirnod cofrestru sgil-gynhyrchion anifeiliaid:

Cofrestriad yn ddilys o:

Llofnod y swyddog sy'n dyroddi Cofrestriad sgil-gynhyrchion anifeiliaid:

Enw (PRIFLYTHRENNAU) y swyddog sy'n dyroddi Cofrestriad sgil-gynhyrchion anifeiliaid:

Rhif Ffôn.: 03000 200301

E-bost: CSCOneHealthABP@apha.gov.uk

Enw Cofrestredig a Chyfeiriad y Safle:

Cod post

Categori ABP

Y swyddfa ddyroddi:

ABP Team
One Health Customer Service Centre
APHA Worcester

Sylwadau:

**DIOGELU DATA**
I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (Animal and Plant Health Agency Personal Information Charter).

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.

| **Stamp HM3** | Enw: | | Dyddiad Derbyn: | | WS ID: | |
|---|---|---|---|---|---|---|